OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

1999 No. 3454

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau y Gellir eu Codi) (Cymru) 1999

Hereditament diffiniedig

4.—(1) O ran diwrnod perthnasol, mae hereditament yn hereditament diffiniedig os yw'r amod ym mharagraff (2) wedi'i fodloni.

(2) Yr amod yn y paragraff hwn yw bod yr hereditament yn cael ei ddangos ar restr ar gyfer —

(a) 31 Mawrth 2000, a

(b) y diwrnod perthnasol, ac

(c) pob diwrnod (os oes un) sy'n dod ar ôl 31 Mawrth 2000 a chyn y diwrnod perthnasol.

(3) At ddibenion y rheoliad hwn:

(a) trinnir hereditament y Goron fel petai wedi'i ddangos ar restr ar gyfer 31 Mawrth 2000;

(b) trinnir hereditament fel petai wedi'i ddangos ar restr ardrethu annomestig ar gyfer Mawrth 2000 os—

(i) bydd yn syrthio o fewn unrhyw ddisgrifiad yn yr Atodlen i Reoliadau Rhestr Ardrethu Canolog 1994 (**1**) ar gyfer 31 Mawrth 2000; a

(ii) os dangosir ef ar restr ardrethu annomestig leol ar gyfer 1 Ebrill 2000;

(c) cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r rheoliadau hyn ddod i rym, rhaid i'r swyddog prisio priodol ardystio'r gwerth ardrethol a fyddai wedi bod yn gymwysadwy i

(i) hereditament y Goron ar 31 Mawrth 2000; a

(ii) hereditament a drinnir fel petai wedi'i ddangos ar restr ardrethu annomestig leol ar q gyfer 31 Mawrth 2000 yn rhinwedd paragraff (b) uchod;

petai wedi cael ei ddangos ar y rhestr ar gyfer y diwrnod hwnnw.

(**1**) O.S. 1994/3121